O am awydd cryf i feddu

Caneuon Ffydd: Rhif 819

O am awydd cryf i feddu
ysbryd pur yr addfwyn Iesu,
ysbryd dioddef ymhob adfyd,
ysbryd gweithio drwy fy mywyd.

Ysbryd maddau i elynion
heb ddim dial yn fy nghalon;
ysbryd gras ac ysbryd gweddi
dry at Dduw ymhob caledi.

O am ysbryd cario beichiau
a fo'n llethu plant gofidiau;
ar fy ngeiriau a'm gweithredoedd
bydded delw lân y nefoedd.

THOMAS MORGAN, 1850–1939

MYFYRDOD

Pe baem ni'n cael dewis, beth fyddai ein huchelgais ni, gweini ynteu cael eraill yn gweini arnom ni? Fe gafodd Iesu'r dewis hwnnw ac fe ddewisodd fod yn was o'i fodd ei hun. Am yr un awydd hwnnw y gofynna Thomas Morgan yn yr emyn hwn. Iesu yn sicr yw ein hesiampl orau o sut i wasanaethu. Ef sydd yn cyflawni proffwydoliaeth Eseia am y gwas perffaith: 'Dyma fy ngwas, yr wyf yn ei gynnal, f'etholedig, yr wyf yn ymhyfrydu ynddo. Rhoddais fy ysbryd ynddo' (Eseia 42:1).

Fe'n dysgodd i fod yn ostyngedig gan gymryd y cam cyntaf wrth weini ar ei ddisgyblion. Dyma fe'n 'codi o'r swper ac yn rhoi ei wisg o'r neilltu, yn cymryd tywel … tywalltodd ddŵr … a dechreuodd olchi traed y disgyblion' (Ioan 13:4–5). Rhoddodd gymaint o'r neilltu er mwyn dod i wasanaethu yn ein plith: 'fe'i gwacaodd ei hun,' meddai Paul (Phil. 2:7), a'i dywallt ei hun allan mewn gwasanaeth i ni.

Efallai nad ydy hi'n ffasiynol iawn gweini bellach, a doedd hi ddim yng nghyfnod Iesu ychwaith; yn wir, roedd cywilydd ar Pedr wrth feddwl y byddai ei Arglwydd yn gadael iddo'i hun gael ei weld yn gwneud gwaith mor isel â golchi traed. Ond dywedodd Iesu wrthyn nhw, '"Yr wyf wedi rhoi esiampl i chwi; yr ydych chwithau i wneud fel yr wyf fi wedi ei wneud i chwi … nid yw unrhyw was yn fwy na'i feistr … Os gwyddoch y pethau hyn, gwyn eich byd os gweithredwch arnynt"' (Ioan 13:15–17). Os ydym am gael ein bendithio, yna mae'n rhaid inni fod yn barod i wasanaethu.

Fe gawn orchymyn newydd gan Iesu i garu ein gilydd (Ioan 13:34), esiampl a gorchymyn, fel y gwelwyd uchod, i wasanaethu ein gilydd, gorchymyn i wneud popeth heb rwgnach nac ymryson (Phil. 2:14), ein rhybuddio y dylem faddau i'n gilydd (Mth. 6:14–15), ein gorchymyn a'n gadael gyda chanllawiau i weddïo (Mth. 6:9–13), a'n gorchymyn drachefn i gario beichiau ein gilydd (Gal. 6:2). Fe ŵyr ein hemynydd am y gorchmynion hyn, ond mae'n gofyn am 'ysbryd pur yr addfwyn Iesu', 'ysbryd dioddef', 'ysbryd gweithio', 'ysbryd maddau', 'ysbryd gweddi', ac 'ysbryd cario beichiau', i gyflawni'r gorchmynion hyn, yr ysbryd hwnnw y mae Iesu'n ei addo i'w ddisgyblion ar ei esgyniad i'r nefoedd. Fe dderbyniwch nerth wedi i'r Ysbryd Glân ddod arnoch, a byddwch yn dystion i mi … hyd eithaf y ddaear' (Actau 1:8).

GWEDDI

Arglwydd Iesu, cael bod yn debyg iti yw fy uchelgais, cael dy stamp di arnaf er mwyn imi fod â 'delw lân y nefoedd' arnaf. Cynorthwya fi i ofyn, i chwilio ac i guro nes cael nerth dy Ysbryd Glân di dy hun yn eiddo imi. Er mwyn dy enw. Amen.